



rhondda cynon taf
community infrastructure levy
ardoll seilwaith cymunedol

Ardoll Seilwaith Cymunedol Rhondda Cynon Taf: Rhestr Codi Tâl

Gwneud taliad mewn da – Polisi Taliadau ar ffurf Tir a Seilwaith

Gwneir y datganid yn unol â Rheoliadau 73, 73A, 73B a 74 o Reoliadau Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd).

Drwy hyn, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ('y Cyngor'), ac yntau'n awdurdod codi tâl yr ardal, yn rhoi gwybod y bydd yn caniatáu i chi wneud taliadau ar ffurf tir a seilwaith yn lle rhan o ddatblygiad sy'n agored i dalu ASC, neu'r datblygiad cyfan.

Bydd y polisi yma'n dod i rym ar 16 Medi 2016.

Pe hoffech chi dalu yn y modd yma, dilynwch y gweithdrefnau sy wedi'u nodi yn Rheoliadau 73 a 73A o Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (fel y'u diwygiwyd).

Y Cyngor sy'n penderfynu cynnig y dull 'gwneud taliad mewn da' ai peidio ac mae'n cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais.

Talu'r ASC ar ffurf tir

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y cewch dalu rhan o gost, neu gost gyfan, ar gyfer datblygiad taladwy ar ffurf tir. Rhaid bodloni'r amodau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn cytuno i drosglwyddo'r gost;
- Caiff y tir ei ddefnyddio i gynnig neu hwyluso seilwaith i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r ardal;
- Mae'r unigolyn sy'n trosglwyddo'r tir i'r Cyngor wedi derbyn atebolrwydd ymlaen llaw i dalu'r ASC;

- Mae unigolyn cymwysedig, profiadol ac annibynnol wedi priso'r tir sydd i'w drosglwyddo. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo'r prisiad. Mae'r prisiad yn cynrychioli pris marchnad teg ar y diwrnod y cafodd ei brisio;
- Dydy'r datblygiad ar y safle ddim wedi dechrau. Rhaid llunio cytundeb ysgrifenedig gyda'r Cyngor i dalu rhan o'r gost neu'r gost gyfan ar ffurf tir cyn i'r datblygiad ddechrau. Rhaid i'r cytundeb nodi gwerth y tir cyn ei drosglwyddo.

Os oes unrhyw gost yn weddill ar ôl trosglwyddo'r tir, rhaid ei thalu ar ffurf arian yn unol â'r dyddiadau talu sydd wedi'u nodi yn yr hysbysiad hawlio perthnasol.

Talu'r ASC ar ffurf seilwaith

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y cewch dalu rhan o gost, neu gost gyfan, ar gyfer datblygiad taladwy ar ffurf un neu ragor o seilweithiau Rhaid bodloni'r amodau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn cytuno i daliad y seilwaith;
- Caiff y seilwaith ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r ardal; a rhaid ei fod ar restr Rheoliad 123 y Cyngor;
- Rhaid i'r unigolyn sy'n darparu'r seilwaith i'r Cyngor fod â rheolaeth ddigonol, neu fod yn debygol o fod â rheolaeth ddigonol dros y tir yr adeiladir y seilwaith arno er mwyn eu galluogi i ddarparu'r seilwaith;
- Mae'r unigolyn sy'n cynnig y seilwaith i'r Cyngor wedi derbyn atebolrwydd ymlaen llaw i dalu'r ASC;
- Rhaid i'r unigolyn sy'n darparu'r seilwaith i'r Cyngor fod wedi cynnig tystiolaeth ei fod ef/ei bod hi wedi cael neu y bydd yn debygol o gael unrhyw awdurdodiadau statudol perthnasol sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r seilwaith i gael ei adeiladu.
- Dydy'r datblygiad ar y safle ddim wedi dechrau. Rhaid llunio cytundeb ysgrifenedig â'r Cyngor sy'n nodi y byddwch chi'n talu rhan o'r gost neu'r gost gyfan ar ffurf seilwaith cyn i'r datblygiad ddechrau. Rhaid i'r cytundeb nodi gwerth y tir cyn ei drosglwyddo.

Os oes unrhyw gost yn weddill ar ôl trosglwyddo'r tir, rhaid ei thalu ar ffurf arian yn unol â'r dyddiadau talu sydd wedi'u nodi yn yr hysbysiad hawlio perthnasol.

Rhaid llunio cytundeb cyfreithlon mewn perthynas â'r ddau fath o daliad mewn da yma cyn i'r datblygiad ddechrau. Bydd y cytundeb yma'n rhoi cyfle i fynd i'r afael ag unrhyw faterion yn ymwneud â chyflwyno'r taliad mewn da bwriadedig yma. Er enghraifft, efallai y bydd hyn yn cynnwys cyflwyno manylebion adeiladu unrhyw ffordd neu adeilad neu sicrwydd y bydd unrhyw dir a gyflwynir yn addas, neu fod modd sicrhau ei fod yn addas, at ei ddefnydd yn y pendraw.

Camau nesaf

Os ydych chi eisiau talu am ASC gan ddefnyddio un o'r dulliau yma, neu'r ddau ohonyn nhw, ac os nad ydych chi wedi dechrau'r datblygiad ar y safle dan sylw, dylech chi drafod hyn â'r Cyngor cyn gynted â phosibl.

Noder

Mae'n bosibl nad yw'r cytundeb i dalu cost yr ASC ar ffurf tir a/neu seilwaith, naill ai'n rhannol neu'n llawn, ddim yn rhan o oblygiad cynllunio yn unol ag Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.